

# Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg: Ymgynghoriad Anstatudol

## Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

### 1. Crynodeb

Croesawn y ffaith bod ymgynghoriad wedi'i gynnal yn gynnar yn y broses o lunio safonau.

Yn gyffredinol, credwn fod perygl na fydd y safonau arfaethedig yn gwella darpariaeth gan fod nifer o'r dyletswyddau yn y safonau yn ail-adrodd yr hyn a gynigir ar bapur gan gynlluniau iaith eisoes. Felly er bod y safonau arfaethedig yn ddefnyddiol fel gwaelodlin i atgoffa nifer o gyrff o'r hyn a ddisgwylir yn barod, nid ydynt yn herio sefydliadau i symud ymlaen at ddwyieithrwydd Cymraeg.

Mae angen symud o seilio safonau ar ddewis iaith unigolion yn unig, tuag at anghenion iaith y boblogaeth. Cymerer dioddefwyr demensia, er enghraifft, neu blentyn sydd heb y gallu i ddewis gwasanaeth iechyd yn Gymraeg, ond sydd ag anghenion ieithyddol amlwg.

Ar y cyfan, yr hyn a amlinellir yn y safonau yw cynlluniau iaith gyda grymoedd cadarnach statudol tu ôl iddynt. Mae hynny'n gam ymlaen o safbwynt y dinesydd sydd yn cael ei adael i lawr gan sefydliadau sydd wedi methu â chyflawni eu dyletswyddau sylfaenol o dan gynlluniau iaith, ond nid yw'n mynd i gryfhau cyflwr yr iaith. Yn bendant, colli cyfle mawr mae safonau gweithredu a hybu fel y maent ar hyn o bryd.

Nid oes gwir gydnabyddiaeth o'r statws arbennig sydd gan y Gymraeg bellach. Er enghraifft, nid oes dim i symud y cyrff a fyddai'n cydymffurfio â'r safonau fel y maent ymlaen at weinyddu trwy'r Gymraeg er mwyn eu troi yn sefydliadau cyfan gwbl Gymraeg eu hiaith.

Er mwyn gwella'r safonau arfaethedig, awgrymwn felly:

1. Y dylai fod cydnabyddiaeth bod statws swyddogol y Gymraeg yn creu cyd-destun lle mae gan sefydliadau amddiffyniad i symud at 'Ddwyieithrwydd Cymraeg' yn hytrach na 'dwyieithrwydd' y mae rhaid optio i mewn iddo.
2. Ni ddylid defnyddio amserlenni'r safonau i adael i sefydliadau beidio gweithredu yn syth ar yr hyn y dylen nhw fod yn cydymffurfio â nhw ar hyn o bryd o dan gynlluniau iaith.
3. Credwn fod angen cryfhau darpariaethau safonau gweithredu a safonau hybu yn sylweddol.

4. Mae angen newid y safon gweithredu, naill ai trwy ychwanegu haen uwch neu drwy gynnwys yn y safon gweithredu presennol y gellid gosod dyletswydd ar gyrff i sicrhau eu bod yn gweinyddu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg
5. Mae angen ail-ystyried y safon hybu yn gyfan gwbl, trwy restru rhagor o bethau meintiol a fydd yn arwain at gamau pendant i gryfhau'r Gymraeg
6. Dylid datgan bwriad i symud at osod safonau ar rannau o'r sector preifat cyn gynted ag y gwneir yn y sector cyhoeddus
7. Mae angen ystyried safonau yng nghyd-destun angen iaith yn hytrach na dewis iaith. Yn aml mae'r dinesydd mewn sefyllfa o ddiffyg grym o gymharu â'r darparwyr megis perthynas claf a'r gwasanaeth iechyd.

## 2. Pwyntiau Cyffredinol

*'Rhaid arwain y ffordd wrth fynd rhagddi i bennu Safonau eglur, a chyson: Safonau a fydd yn dileu ansicrwydd ym meddyliau pobl ynghylch y cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg.'*

Croesawn y ffaith bod ymgynghoriad wedi'i gynnal yn gynnar yn y broses o lunio safonau a chytunwn gyda'r geiriau uchod o'r ymgynghoriad. Croesawn hefyd barodrwydd y Comisiynydd i gwrdd â ni mewn nifer o fforymau a thrafod cynnwys y safonau. Gobeithiwn y bydd yr agwedd yna yn parhau.

Wedi dweud hynny, credwn fod nifer o elfennau yn y safonau arfaethedig y gellid eu gwella a'u cryfhau. Yn gyffredinol, credwn fod y safonau, er eu bod yn ddefnyddiol fel gwaelodlin, yn dangos diffyg uchelgais i wella sefyllfa'r Gymraeg mewn nifer o ffyrdd, yn enwedig yn yr ardaloedd daearyddol lle mae'r Gymraeg wedi bod yn gref yn draddodiadol. Yn hynny o beth, teimlwn fod y safonau yn peryglu colli cyfle mawr i gryfhau'r iaith ym mhob ardal yng Nghymru. Pryderwn y gallai'r safonau fod yn wannach na'r cynlluniau iaith mewn ffyrdd pwysig gan y gallai nifer o gyrff fod yn cyrraedd y safonau yn barod heb wneud dim i wella'u darpariaeth. Yn benodol, credwn fod diffyg dychymyg ac uchelgais yng nghynnwys y safonau gweithredu a hybu. Er enghraifft, nid oes modd trwy'r safonau arfaethedig sicrhau y bydd rhagor o gyrff yn gweinyddu'n fewnol trwy'r Gymraeg.

### 2.1 Dwyieithrwydd Cymraeg

Credwn fod y safonau yn gwneud cam gwag wrth gael eu seilio ar y cysyniad o ddwyieithrwydd yn unig. Nid oes cydnabyddiaeth o'r angen am ddwyieithrwydd Cymraeg. Mae hynny'n cael ei amlygu gan y safon gweithredu sydd yn amlinellu nifer o wasanaethau adnoddau dynol dewisol. Mae nifer o gyrff wedi dangos awydd a dychymyg i wella defnydd mewnol o'r Gymraeg, ond nid oes dim yn y safonau a fyddai'n sicrhau bod yr arfer da yn cael ei ledaenu i sefydliadau eraill. Credwn yn gryf y dylai hyn fod yn rhan o gyfundrefn statudol y safonau gan ystyried pwysigrwydd sefyllfa'r Gymraeg yn y gweithle i'w dyfodol. Yn hynny o beth, mae yna ddiffyg rhagfarnu'n gadarnhaol o blaid yr iaith yn y safonau arfaethedig, gyda diffyg pwylais ar normaleiddio'r iaith a gor-ddibyniaeth ar optio mewn i wasanaethau.

## 2.2 Perygl Amserlenni rhy hyblyg

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, dadleuwyd gan y Comisiynydd y gallai fod hyblygrwydd yn y safonau trwy amserlenni'r cydymffurfio. Credwn y byddai nifer o beryglon mewn bwriad o'r fath. Yn gyntaf, mae'r rhan fwyaf o'r safonau yn amlinellu nifer o wasanaethau ddylai gael eu darparu o dan gynlluniau iaith presennol. Gwelwn felly bod y safonau yn cael eu trin fel offeryn statudol cadarnach i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau fel sydd mewn cynlluniau iaith ar hyn o bryd yn hytrach na'u defnyddio i sicrhau rhagor neu ystod ehangach o wasanaethau.

Mae'r Comisiynydd wedi bod yn ceisio pwysleisio bod hyblygrwydd ynghylch pryd fydd rhai sefydliadau yn gorfod cydymffurfio gyda safonau. Credwn fod perygl na fydd yn glir i'r cyhoedd nad yw rhai cyrff yn gorfod cydymffurfio yn ôl yr un amserlen â'r gweddill. Deallwn na fyddai prosesau mewnol rhai sefydliadau yn gallu ymateb yn syth, ond credwn y gallai rhai cyrff symud yn syth at weithredu'r safonau. Nid ydym yn gweld pam dylai fod unrhyw amser ychwanegol gan fod y rhan fwyaf o ddyletswyddau yn mynd i fod yn ddatblygiad bach ar y dyletswyddau presennol.

## 2.3 Y Sector Preifat

Ni chytunwn y dylid aros i osod safonau ar y rhan o'r sector preifat sydd yn dod o dan cwrpawd y Mesur. Credwn fod angen trin gwasanaethau Cymraeg o ba bynnag sector yn yr un ffordd o ran amserlenni gan nad yw'n gwneud gwahaniaeth o bersbectif y defnyddiwr ym mha sector mae'r darparwr, yn enwedig yn ystod cyfnod lle mae'r ffin rhwng y sectorau yn mynd yn llai ac yn llai eglur.

Mae'n bwysig cofio bod nifer o gwmnïau wedi bod â chynlluniau iaith am gyfnod hir, a dylent allu cydymffurfio â'r safonau yn unol â'r un amserlen a'r sector cyhoeddus.

Yn amlwg, credwn fod angen i'r sector breifat yn ei gyfanrwydd gael ei gynnwys o dan gwmpawd y Mesur, er ein bod yn deall nad yw sylw o'r fath yn berthnasol yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad hwn. Wedi dweud hynny, credwn y dylai'r Comisiynydd ddatgan yn glir bod angen cynnwys sectorau preifat sydd, yn ddiamheuaeth, yn methu cyflawni nifer o wasanaethau sylfaenol yn Gymraeg. Mae [Llyfr Du](#) y Gymdeithas, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, yn amlygu nifer o sectorau ble mae diffygion mawr, megis banciau ac archfarchnadoedd.

## 2.4 Diffyg Uchelgais

Ai pwrpas y safonau yw sicrhau bod gwell cydymffurfiaeth â gofynion presennol cynlluniau iaith, neu sicrhau newid diwylliannol a fyddai'n symud y tirwedd ieithyddol? Mae'n amlwg mai'r cyntaf sydd o dan sylw ar hyn o bryd, ond credwn y byddai modd ychwanegu elfennau llawer iawn mwy dyfeisgar a heriol. Fel dull i gysoni a sicrhau cydymffurfiaeth â'r hen gynlluniau iaith gellid dadlau bod y safonau yn llygaid eu lle. Ond bydd nifer o gyrff eisoes yn cydymffurfio â nhw ac felly ddim yn symud ymlaen oherwydd y newid statudol.

Ni welwn reswm pam na ddylid cynnwys safonau llawer iawn uwch y gallai rhai gydymffurfio â nhw yn syth, rhai o fewn blwyddyn neu ddwy ond rhai mewn cyfnod hirach. Un pwysig yw gweinyddiaeth fewnol Gymraeg, mae hyn eisoes yn digwydd yng Nghyngor Gwynedd, ond dylai ddigwydd mewn llawer mwy o gynghorau sir, a gallai ddigwydd fesul adran yn rhai cynghorau sir ac adrannau o'r Llywodraeth, yn ogystal â chyrrff a chwmnïau eraill. Gallai hynny fod yn nod i bob sefydliad sydd yn dod o dan gwmpawd y safonau, ond yn amlwg gyda hyblygrwydd o ran amserlennu hynny. Byddai hynny yn rhoi pob sefydliad ar lwybr at fod yn sefydliad Cymraeg ei iaith.

Gellid dadlau bod y safon gweithredu'n iawn fel gwaelodlin ond anodd yw gweld sut y byddai'r safonau hyn yn symud rhagor o gyrff at bolisi o wneud y Gymraeg yn hanfodol fel y gwneir gan Heddlu Gogledd Cymru a chyrrff eraill.

Mewn nifer o ffyrdd, mae yna berygl y gallai safonau iaith fod yn wannach na rhai cynlluniau iaith, trwy gollir elfennau blaengar a welwyd gan rai cyrrff. Dyna pam mae angen gosod safonau gweithredu mwy heriol a allai, trwy amserlenni, fod yn ddigon hyblyg yn dibynnu ar natur y corff. Eto, gyda safonau gweithredu mae angen bod llawer iawn mwy meintiol i symud nifer o gyrff at bolisi cyflogaeth sydd yn integreiddio gyda'r strategaeth addysg Gymraeg.

Mae'r diffyg uchelgais yn amlwg wrth edrych ar y safonau hybu arfaethedig a fyddai'n golygu gofynion sy'n cyfateb â'r hyn mae Llywodraeth Cymru a chynghorau sir yn ei wneud eisoes. Credwn y gellid dyfeisio safonau llawer iawn mwy meintiol, trwy ddisgwyl i gyrff hysbysebu eu holl swyddi yn y wasg Gymraeg yn ogystal â'r wasg Saesneg, er enghraifft, a chreu cynlluniau i gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg sy'n dod i'r weithio i'r sefydliad drwy gynlluniau yn pontio rhwng ysgolion/colegau/prifysgol a'r sefydliad ar ffurf prentisiaethau/profiadau gwaith estynedig. Mae nifer o gynghorau sir yn anwybyddu'r Gymraeg wrth ddosrannu grantiau i fudiadau cymunedol. Hefyd, dylid disgwyl i holl grantiau sefydliadau hybu digwyddiadau Gymraeg mewn ffordd sydd ddim yn llai ffafriol na'r Saesneg, trwy neilltuo yr un faint o arian i brosiectau Cymraeg, megis gweithgareddau i blant.

Gellid dadlau bod y safonau yn y ddogfen ymgynghorol wedi'u hysgrifennu o bersbectif lle mae dwyieithrwydd tocenistaidd yn dderbyniol a lle nad yw'r iaith yn un gymunedol. Mae'n annoeth cyffredinoli, ond gellid dadlau y byddai hyn yn symud pethau ymlaen mewn rhai ardaloedd oherwydd diffyg cydymffurfiaeth gan gyrff megis cynghorau sir yn yr ardaloedd hynny. Wrth geisio datrys y problemau y dylai cynlluniau iaith fod wedi eu datrys sawl blwyddyn yn ôl yn y cyrrff anfodhaol hyn, mae rhoi safonau yn lle cynlluniau iaith yn gadael gwagle i eraill ac yn eu dal yn ôl.

Credwn y gallai nifer o gyrff gyrraedd y safonau yn weddol hawdd, er bod effaith iaith eu gweithgareddau yn parhau i fod negyddol. Gwelir hyn mewn nifer o ardaloedd lle mae gweinyddu'n fewnol i raddau helaeth yn y Saesneg oherwydd nad yw'r polisi cyflogaeth yn adlewyrchu ffaith bod angen i holl staff y Cyngor fedru'r Gymraeg os yw Cymry Cymraeg yr ardal i gael eu gwasanaethu'n iawn. Mae polisi cyflogaeth nifer o gyrff yn

effeithio'n fawr ar allfudo a mewnfudo yn yr ardaloedd hyn, rhywbeth y mae'n rhaid i'r Comisiynydd ei daclo os yw am ddiogelu'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Ar hyn o bryd, ni welir ymdrech i fynd i'r afael a'r effaith hon na cheisio pontio rhwng y strategaeth addysg Gymraeg a'r gweithle. Gellid gwneud hynny trwy'r safonau hybu a gweithredu.

Ni ddylid cyfyngu'r safonau mwy uchelgeisiol hyn i'r ardaloedd lle mae'r Gymraeg wedi bod yn gryf yn draddodiadol, er ei bod wrth gwrs yn hanfodol iddynt gael ei weithredu yn yr ardaloedd hynny; mae angen bod yn fwy uchelgeisiol mewn ardal fel Caerdydd a'r siroedd cyfagos hefyd, lle mae nifer uchel iawn o siaradwyr Cymraeg. Wedi'r cyfan, mae perthynas agos rhwng adfer yr iaith yn yr ardaloedd 'llai traddodiadol Gymraeg' ac ardaloedd eraill.

Cymerwch Gyngor Merthyr, Bws Caerdydd, neu'r Gwasanaeth Iechyd fel enghreifftiau o gyrrff sydd yn methu â chyflawni gwasanaethau sylfaenol yn Gymraeg er bod cymaint o fuddsoddi mewn addysg Gymraeg. Mae problemau'r sefydliadau hyn yn deillio o'u polisiau cyflogaeth ac er bod nifer fawr o blant yn gadael ysgolion yn rhugl yn Gymraeg nid oes ffordd i sicrhau defnydd o'u sgiliau ieithyddol. Mae hyn yn gam gwag o safbwynt sefydliadau sydd â mawr angen am aelodau o staff dwyieithog, ond hefyd mae'n golygu nad oes cyfleoedd gan y myfyrwyr i barhau â'u Cymraeg ar ôl gadael addysg. Gwelwn ddiffyg mawr yn y safonau hybu a gweithredu arfaethedig felly, gyda pherygl y gellid colli cyfle mawr trwy osod y bar mor isel.

Bydd rhai cyrrff yn derbyn y neges eu bod nhw'n gwneud yn iawn achos eu bod yn cyflawni'r hyn sydd angen, er bod yr iaith ar lefel gymunedol yn marw ar ei thraed. Ffon fesur felly yw cyflawni gwelliant ym mhob ardal, nid mewn rhai ardaloedd yn unig. Mae angen derbyn amrywiaeth cymunedol Cymru, trwy waelodlin gwell, ond hefyd trwy wthio'r ffiniau a'n disgwyliadau ymlaen fel Cymry Cymraeg.

Credwn hefyd y gallai safonau pwysleisio'r effaith economaidd positif y gellid ei greu: trwy greu gweinyddiaeth fewnol Gymraeg, gellid adeiladu marchnad lafur Gymraeg a fyddai'n hybu busnesau Cymraeg ac fel canlyniad yn cryfhau'r iaith ar lefel gymunedol.

## **2.5 Meini Prawf y Safonau**

Ystyriwn y cwestiynau hyn wrth ymateb i'r safonau:

- Ydyn nhw'n mynd i'w gwneud yn glir i bobl ar y stryd beth fydd yn wahanol a beth gallan nhw ei ddisgwyl?
- Ydy e'n mynd i arwain at normaleiddio a chynyddu defnydd y Gymraeg o ddydd i ddydd?
- Sut ydy'r safonau yn symud o ddwyieithrwydd tocenistaidd at ddwyieithrwydd Cymraeg?

Gwelwn fod angen safonau sydd yn herio pawb i gynnig gwasanaeth teilwng i bobl Cymru. Y tu hwnt i'r gwaelodlin sy'n amlinellu'r hyn sy'n ddisgwylidig gan bawb, byddem yn gweld gwerth mewn safonau sydd yn gosod gofyn am lefelau amrywiol o ddarpariaeth gan wahanol gyrrff.

Cymerwn Gyngor Ceredigion er enghraifft: bydden nhw yn bodloni'r safonau a fyddai'n dod arnynt o dan y safonau arfaethedig, heb lawer o drafferth. Mewn ardal gyda chanran mor uchel o siaradwyr Cymraeg credwn y dylai fod safon uwch ganddyn nhw i anelu ato a'u bod yn gweithio tuag at weithredu yn drwy gyfrwng y Gymraeg yn fewnol a chyfieithu i'r Saesneg, fel y mae Cyngor Gwynedd yn ei wneud nawr. Byddai lefelau gwahanol yn golygu fod corff fel Cyngor Sir Gaerfyrddin yn dechrau trwy weithio i sicrhau fod adran Addysg y Sir yn gweithredu'n Gymraeg gan gyfieithu i'r Saesneg, unwaith y byddai hynny wedi ei gyflawni byddai symud ymlaen at y safon nesaf. Byddai corff fel Cyngor Merthyr Tudful neu Sir Fynwy yn dechrau trwy weithio i gynnig gwasanaethau sylfaenol fel sydd yn y safonau nawr ond gan adeiladu ar hyn drwy'r amser gyda'r nod, yn y pen draw, o fod yn gallu gweithredu drwy'r Gymraeg.

Deallwn fod rhai rhesymau cyfreithiol/technegol pam fod rhaid cyflwyno gwybodaeth i'r cyhoedd mewn ffordd arbennig, ond credwn bod angen gwella sut i gyflwyno gwybodaeth am waith y Comisiynydd er mwyn ei gwneud yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. Mae naws y ddogfen yn dod drosodd fel dogfen ar gyfer cyrff a chwmnïau yn hytrach nag unigolion.

## **2.6 Dwyieithrwydd Cymraeg yn hytrach na Dwyieithrwydd tocenistaidd**

Croesawn y ffaith bod rhywfaint o bwyslais wedi symud oddi ar anghenion cyrff i anghenion pobl a chymunedau. Ond credwn fod angen shift pellach o ran meddylfryd y Comisiynydd, oddi ar hen agwedd Bwrdd yr Iaith. Amlygir hyn gan y defnydd o eiriad fel y canlynol: *'greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a chryfhau lle'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru.'*

## **3. Pwyntiau penodol am y safonau**

### **3.1 Cyflwyniad**

Credwn fod y ddogfen ymgynghorol a'r cyflwyniadau a wnaed yn y cyfarfodydd cyhoeddus wedi'u gwneud o safbwynt y darparwr yn hytrach na'r defnyddiwr. Mae hynny'n destun pryder gan ei fod yn barhad o un o brif wendidau trefn Bwrdd yr Iaith sef diffyg ffocws ar bobl. Er enghraifft, yn y cyflwyniadau nid oedd sôn am hawl yr unigolyn i herio penderfyniadau'r Comisiynydd ynghylch diffyg cydymffurfiaeth a'r safonau. Ymddengys felly bod angen newidiadau pellach yn Swyddfa'r Comisiynydd er mwyn sicrhau mai pobl nid cyrff yw eich ffocws.

Bu gennym ansicrwydd am y geiriau isod yn yr ymgynghoriad:

*'Bydd yn rhaid i sefydliad sicrhau bod pob gweithgaredd a restrir, ac sy'n cael eu harfer ganddynt fel rhan o'u swyddogaethau arferol, yn cydymffurfio â phob safon. Yn y lle cyntaf, y sefydliad fydd yn penderfynu hynny (yn unol â chanllawiau a ddarperir gan y Comisiynydd). Ar ôl derbyn strategaeth, ac os bydd y Comisiynydd yn anghytuno â'r dehongliad, fe fydd modd ymchwilio i'r*

Deallwn bellach nad penderfyniad sefydliad fydd pa safonau y maent yn cydymffurfio â nhw ac nad oedd bwriad gadael yr argraff honno yn y paragraff hwn. Yn hytrach, bydd sefydliad yn rhoi gwybod i'r Comisiynydd pa weithgareddau sy'n rhan o'i swyddogaethau arferol.

Fel amlinellir uchod, credwn fod perygl mawr y gallai'r cynlluniau cydymffurfio greu dryswch ym meddwl y cyhoedd ynghylch pa wasanaethau Cymraeg sydd ar gael a phryd. Mae anghysondeb o ran y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael yn gyfystyr â dileu'r cysyniad o hawliau pobl i wasanaethau Cymraeg. I ryw raddau mae'n bosib gwahaniaethu rhwng yr allanol a'r mewnol, gan ei bod yn bosib bod yn gymharol hyblyg o ran amseru cynyddu defnydd mewnol cyrff o'r Gymraeg, ond bod angen pendantrwydd ynghylch gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd.

Credwn fod y ddogfen ymgynghorol yn aneglur yn gyffredinol ynglyn â pha gyrff a chwmnïau sydd yn ddarostyngedig iddynt. Credwn y dylai'r Comisiynydd osod safonau ar gymaint o gyrff â phosib, ac nid yw'n glir mai dyna yw'r bwriad o esboniad y ddogfen hon. Gobeithiwn felly mai rhestrau enghreifftiol yw'r rhestrau o dan 'pwy sy'n gorfod gweithredu'r' safon o dan sylw.

### **3.2 Safonau Cyflenwi Gwasanaeth:**

Mae'r egwyddor o adnabod dewis iaith pobl yn syniad sydd yn awgrymu ac yn rhoi'r argraff o optio mewn i'r Gymraeg o hyd. Rydym yn ymwybodol nad yw hynny'n effeithiol. Nid yw pobl, am resymau amser a rhesymau eraill, yn mynd ati i chwilio am y Gymraeg. Mae'r feddylfryd yma yn gallu bod yn niweidiol i'r Gymraeg a chredwn y dylai'r holl gyrff sydd yn dod o dan y safonau fod yn gohebu yn Gymraeg a Saesneg gyda phawb.

Er fod nifer o gyrff wedi eu cynnwys nid yw rhai cyrff y daw pobl i ddelio gyda nhw o ddydd i ddydd yn gynwysedig. Ystyriwn yn benodol y sector bancio ac archfarchnadoedd.

Er bod darparwyr addysg yn cael eu cynnwys mae'n broblem sydd yn bodoli yn barod fod addysg a gwasanaethau yn ymwneud yn benodol ag addysg yn tueddu i fod yn Gymraeg ond bod gwasanaethau eraill fel gwersi nofio a gweithgareddau allgyrsiol, sydd yn aml yn cael eu darparu gan yr un awdurdodau lleol ag sy'n darparu addysg Gymraeg, ddim ar gael yn Gymraeg. Mae hynny'n atgyfnerthu'r gamdybiaeth mai iaith addysg yw'r Gymraeg. Gan fod y ddarpariaeth mor amrywiol o sir i sir hoffem weld Awdurdodau Lleol yn darparu lleiafswm o wasanaethau Cymraeg.

Nid yw'n glir a yw'r safon hwn yn cynnwys, nid yn unig 'deunydd a gyhoeddir' gan ddarparwr, ond y nwyddau, y rhyngwyneb neu'r ddyfais y cyhoeddir deunydd arno neu drwyddo, er enghraifft, a fyddai safonau o'r fath yn golygu y byddai meddalwedd ffonau symudol yn gorfod bod ar gael yn Gymraeg?

### **3.3 Safonau Llundio Polisi**

Yn gyffredinol, cytunwn â'r safon hwn, ond rydyn ni'n pryderu y bydd hyn yn troi yn ymarferiad ticio blychau yn y sefydliadau fel y maent ar hyn o bryd - mae angen ieithwedd gadarnach mewn sawl safon. Credwn fod modd gwella mewn nifer o lefydd penodol, gan gynnwys yr isod.

Mae angen ystyriaeth i'r Gymraeg ym mhob agwedd o ddatblygu polisi. Felly, croesawn y rhan yn ymwneud â thai, a dylid rhoi pob ystyriaeth i effaith unrhyw ddatblygiad tai ar y Gymraeg.

Credwn y dylai'r safonau gyfeirio at ystyried cwynion gan y cyhoedd neu adroddiadau am ddiffyg cydymffurfiaeth â chynllun iaith neu safon wrth lunio polisi cyflogaeth.

Yn safon 8, dylid ychwanegu'r geiriau 'neu Gymraeg' ar ôl 'gweithlu'.

Dylid ychwanegu lle bo'n berthnasol polisi addysg ac hyfforddiant - rhaid ystyried sut y bydd yn cyflenwi digon o siaradwyr Cymraeg rhugl i gynnig y gwasanaethau.

Wrth ystyried dosbarthu grantiau, rhaid sicrhau nad yw'r dosraniad arian yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn safon 9 dylid dileu'r geiriau 'cymryd pob cam rhesymol a phriodol i lunio neu i gryfhau' a mewnosod 'llunio a chryfhau'. Dileu 'a allai gynnwys' a mewnosod 'a fydd yn cynnwys, ymysg pethau eraill'.

### **3.4 Safonau Gweithredu**

Am nad yw sefydliad neu gorff yn hollol ddwyieithog heblaw ei fod yn gallu gweinyddu drwy'r Gymraeg, ni fydd yn bosibl i weithwyr weithio yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg, ond mewn rhai sefydliadau bydd y safonau yn golygu cam ymlaen.

Mae'n galonogol gweld er hynny y bydd gofyn darparu hyfforddiant a meithrin sgiliau iaith. Er hynny mae'r cyfeiriadau cyson at 'weithredoedd perthnasol' yn dal i awgrymu nad oes raid ac nad oes anogaeth ar gwmni na sefydliad i fynd tu hwnt i'r safonau sydd wedi eu gosod.

Mae Safon 2 yn cyfeirio at weithgareddau perthnasol i'r safonau, mae hynny eto yn cadarnhau mai gweithgareddau yn gysylltiedig â'r safonau yn unig sydd angen eu gwneud yn Gymraeg. Nid oes anogaeth felly i ddarparu unrhyw wasanaethau pellach yn y Gymraeg. Credwn y dylai'r Gymraeg ddod yn rhan ganolog o gwmnïau a sefydliadau, nid yn rhywbeth ymylol. Fel ag y mae nawr bydd y safonau yn ceisio gwthio'r Gymraeg i mewn ar yr ymylon ac yn hytrach na'i phrif ffrydio.



Mae angen cefnogi pobl yn y gwaith i ddefnyddio'r sgiliau yn Gymraeg sydd ganddyn nhw ac i'w gwella. Mae dyletswydd ar y cyflogwr i addysgu a chynorthwyo ei aelodau o staff er mwyn creu gweithluoedd sydd yn gweithredu yn gyfan gwbl Gymraeg.

Mae angen safon ar wahân y gellid ei osod ar sefydliad i'w symud at bolisi o weinyddiaeth fewnol Gymraeg. Dylid defnyddio hyblygrwydd safonau fan hyn i gydnabod yr angen i symud rhai sefydliadau tuag at wneud y Gymraeg yn hanfodol.

### **3.5 Safon Hybu**

Credwn fod angen ail-ystyried y safon hybu yn gyfan gwbl, a rhestru rhagor o bethau meintiol a allai gryfhau'r Gymraeg, megis hysbysebu swyddi yn y wasg Gymraeg, annog prosiectau a digwyddiadau uniaith Gymraeg, mabwysiadu polisi fyddai'n caniatáu polisiâu o unieithrwydd Cymraeg yn lleol.

Nid yw'n glir bod y safon hwn yn mynd i newid ymddygiad unrhyw rai o'r cyrff a restrir, ac mae perygl iddo droi yn ymarfer ticio blychau. Credwn y dylid cynnwys pethau meintiol e.e. wrth hysbysebu *pob* swydd, bod rhaid hysbysebu yn y wasg leol a chenedlaethol *Gymraeg*; sefydlu cynllun prentisiaethau a phrofiad gwaith gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (ac ysgolion a cholegau addysg bellach) yn benodol i siaradwyr Cymraeg er mwyn gwella'r pontio rhwng y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac anghenion gweithleoedd Cymraeg a dwyieithog.

### **3.6 Safonau Cadw Cofnodion**

Rydym yn croesawu'r ffaith bod cofnod yn cael ei gyflwyno i'r Comisiynydd yn rheolaidd ond mae'n bwysig er hynny fod y Comisiynydd yn cadw cofnod o'r hyn sy'n ddisgwyliedig, unrhyw gwynion a'r holl wybodaeth yn ymwneud â hynny.

### **3.7 Safonau Ychwanegol**

Rydym wedi nodi nad yw'r safonau yn hybu gweithredu yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg, dim ond fod unrhyw gysylltiad gyda'r cyhoedd yn digwydd drwy'r Gymraeg. Er y byddai hynny yn gam ymlaen mewn rhai enghreifftiau, mewn gwirionedd nid yw'n annog gwella ar yr hyn fydd yn cael ei ddarparu. Credwn fod angen safonau lle mae camau: unwaith mae un set o safonau wedi ei chwblhau, bod symud at y cam nesaf o ddarpariaeth ar lefel uwch.

## **4. Atebion i gwestiynau penodol yr ymgynghoriad**

### **1. A yw'r safonau cyflenwi gwasanaethau yn ddigon eglur i ddefnyddwyr?**

Credwn mai'r safonau cyflenwi gwasanaethau yw'r mwyaf eglur o'r safonau a amlinellir yn y ddogfen. Wedi dweud hynny, nid yw'r safonau yn eglur o safbwynt yr unigolyn mewn gwirionedd. Disgwyliwn y bydd y safonau terfynol yn arwain at ddogfen arall sydd

yn esbonio'r safonau yn eglur i bobl Cymru.

O ran y cwmnïau/sefydliadau sy'n derbyn dros £400,000 y flwyddyn o arian cyhoeddus, nid ydym o'r farn y bydd yn eglur i'r cyhoedd pwy yw'r cwmnïau/sefydliadau hyn. Barn y Gymdeithas yw y dylai pob cwmni neu sefydliad sy'n cael unrhyw arian cyhoeddus ddod o dan y safonau.

## **2. A yw'r safonau cyflenwi gwasanaethau yn adlewyrchu profiad defnyddwyr?**

Mae'r swyddogaethau yn eithaf cynhwysfawr o ran y pethau y daw pobl i gysylltiad gyda nhw ond i'r bobl sydd yn gweithio yno fyddai dim anogaeth iddynt weithio drwy'r Gymraeg. Byddai'r Gymraeg yn dal i fod yn rhywbeth byddai mudiadau a sefydliadau yn gwneud ymdrech arbennig ar ei gyfer wrth ddod i gyswllt a'r cwmnïau yn hytrach na'i fod yn dod yn rhywbeth canolog.

## **3. A yw gweithgareddau perthnasol y safonau cyflenwi gwasanaethau yn adlewyrchu holl swyddogaethau (a) Trydydd Sector a (b) Cwmnïau Preifat?**

Mae'r safonau yn adlewyrchu swyddogaethau'r uchod o ran dod i gysylltiad gyda'r cyhoedd. Eto i gyd ni fydd sefydliadau na chwmnïau yn gallu bod yn gyrrff llwyr ddwyieithog oni bai eu bod yn gweithredu yn fewnol yn ddwyieithog hefyd. Byddem yn croesawu fod holl waith unrhyw sefydliad sydd yn cael ei weld ac yn cael ei wneud mewn cysylltiad gyda'r cyhoedd yn digwydd yn ddwyieithog, ond er lles y Gymraeg fel iaith fyw mae angen mynd ymhellach.

## **4. A fydd y safonau gweithredu yn cynyddu gallu gweithleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?**

Rydym yn anghytuno'n gryf. Os mai'r nod yw cadarnhau'r Gymraeg fel iaith leiafrifol mewn sefydliad uniaith Saesneg, byddai'r safonau yn cyrraedd y nod. Os mai'r bwriad yw creu sefydliadau sy'n gweinyddu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg, cam gwag fydd y safonau hyn. Fodd bynnag, i nifer o sefydliadau heb unrhyw fath o ddefnydd mewnol o'r Gymraeg, gallai'r safonau hyn fod yn gam ymlaen ac yn waelodlin defnyddiol fel man cychwyn.

## **5. A fydd y safonau llunio polisi yn sicrhau bydd sefydliadau yn ystyried effaith ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg ym mhob agwedd ar ddatblygiad polisi.**

Rydym yn anghytuno'n gryf. Cytunwn gyda'r bwriad da y tu ôl i'r safonau llunio polisi ond nid ydynt yn ddigon meintiol i sicrhau bod gwahaniaeth ar lawr gwlad. Mae gormod o bwyslais ar ystyried yn hytrach na gweithredu.

## **6. A fydd y safonau hybu yn gyfle i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach?**

Na fydd. Teimlwn yn gryf mai modd o gadarnhau'r gyfundrefn docenistaidd bresennol fydd y safonau fel yr amlinellwyd yma. Mae rhaid ailystyried y safonau hyn gyda golwg ar syniadau llawer iawn mwy uchelgeisiol a dychmygus.

**7. A fydd y safonau cadw cofnodion yn sicrhau digon o atebolrwydd cyhoeddus a thryloywder wrth weithredu safonau?**

Nid oes sylwadau gennym.

**8. A ddylid cynnwys unrhyw safonau eraill yn y pum maes uchod?**

Dylid. Credwn y dylid ystyried a oes angen haen uwch ar gyfer pob safon ar wahân i safonau cadw cofnodion ar gyfer sefydliadau lle mae'n amlwg y gellid ac y dylid symud ymlaen at weinyddu'n fewnol drwy'r Gymraeg. Yr un amlycaf yw safonau gweithredu lle dylid cynnwys naill ai yn y safonau presennol, neu fel safonau ychwanegol, gyfundrefn sydd yn troi gweinyddiaeth fewnol yn un drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.

**9. A oes sylwadau pellach?**

Gweler uchod.